

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **30 Ionawr 2018** i:

Tîm Deddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:
DeddfwriaethDiwygiorCwricwlwm@llyw.cymru

Categori'r ymatebydd	Ysgol gynradd	<input type="checkbox"/>
	Ysgol uwchradd	<input type="checkbox"/>
	Ysgol arbennig	<input type="checkbox"/>
	Sector addysg uwch	<input type="checkbox"/>
	Sector addysg bellach	<input type="checkbox"/>
	Sefydliad cyn-ysgol	<input type="checkbox"/>
	Gweithiwr addysg proffesiynol	<input type="checkbox"/>
	Undeb athrawon	<input checked="" type="checkbox"/>
	Llywodraeth leol	<input type="checkbox"/>
	Consortiwm	<input type="checkbox"/>
	Sefydliad sector cyhoeddus arall	<input type="checkbox"/>
	Sefydliad trydydd sector	<input type="checkbox"/>
	Rhiant/gofalwr	<input type="checkbox"/>
	Arall	<input type="checkbox"/>

Cwestiynau

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n credu y bydd y diwygiadau arfaethedig i reoliadau sy'n bodoli'n barod yn sicrhau bod asesu'n canolbwyntio ar wella dysgu?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn y bydd hwn yn gam pwysig tuag at roi'r pwyslais ar asesu ar gyfer gwella dysgu, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn.

Mae'r system ysgolion (yn arweinwyr ysgol, staff dysgu, a dysgwyr) wedi bod yn dioddef mewn ffyrdd amrywiol o ganlyniad i'r pwyslais unlllygeidiog ar ddata, a data cymharol yn arbennig. Mae'r gorbwyslais ar ddata cymharol wedi bod yn gymhelliant ar gyfer mathau o ymddygiad gwrthgynhyrchiol o fewn y system. Mae UCAC ac undebau addysg eraill wedi bod yn dwyn sylw Llywodraeth Cymru at hyn ers cryn amser, ac yn fwy diweddar mae'r Athro Graham Donaldson a'r OECD wedi tynnu sylw at y ffenomenon yn eu hadroddiadau. Mae newid o'r math hwn yn angenrheidiol, ym marn UCAC, os am symud tuag weledigaeth bositif yr Athro Donaldson ar gyfer system addysg Cymru.

Mae UCAC yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i ddisodli'r diwylliant cystadleuol hwn, a chreu awyrgylch sy'n fwy cydnaws â chydweithio ac ag asesu gwaith disgyblion yn onest at bwrpasau adeiladol.

Cwestiwn 2 – Beth yw heriau a chyfleoedd y newidiadau arfaethedig?

Sylwadau ategol

Cyfleoedd

Gobeithiwn y bydd y newid hwn yn arwain at leihau'r pwyslais ar atebolrwydd allanol a chystadleuaeth ddiangen sydd wedi cael effaith niweidiol ar ddiwylliant ysgolion a diwylliant asesu'n benodol.

Yn ogystal, byddem yn gobeithio y bydd y newid yn cyfrannu tuag at bwyslais cynyddol gan y consortia rhanbarthol ar **gefnogi** ysgolion. Mae'r drefn bresennol, wedi'i gyrru i raddau helaeth gan ddata cymharol, wedi rhoi persbectif cul iawn ar yr hyn sy'n bwysig o fewn y system, ac mae hynny yn ei dro wedi arwain at ymagwedd haearnidd a bygythiol. Edrychwn ymlaen at weld y persbectif yn ehangu i roi darlun mwy cytbwys, ac yn sgil hynny, ymagwedd fwy cadarnhaol a chydweithredol tuag at wella.

Heriau

Pryderwn am un sgil effaith penodol o beidio â chyhoeddi'r data sy'n cael eu henwi yn y ddogfen ymgynghori, sef gallu'r cyhoedd a mudiadau perthnasol i ddadansoddi ble mae'r Llywodraeth arni o ran ei thargedau mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg. Tybiwn y bydd gan Lywodraeth Cymru ei hun, y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol fynediad at y data, neu o leiaf y data sy'n uniongyrchol berthnasol iddyn nhw. Fodd bynnag, mae atebolrwydd cyhoeddus yn y maes hwn yn greiddiol; mae hanes yn dangos mai pwysau gan rieni a grwpiau/mudiadau/sefydliadau perthnasol sydd wedi arwain at dwf yn y sector cyfrwng Cymraeg. Rhaid peidio bygwth y tryloywder hyn. Ni fyddai ceisiadau Rhyddid

Gwybodaeth yn llwybr amgen derbyniol - nac ychwaith, tybiwn, yn llwybr hwylus i'r Llywodraeth.

Awgrymwn y gallai fod yn werth cyhoeddi Bwletin Ystadegol newydd sy'n cwmpasu'r wybodaeth fyddai ei angen ar gyfer monitro cynnydd mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg.

Cwestiwn 3 – A oes unrhyw beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod asesu yn cael ei ddefnyddio i lywio dysgu?

Sylwadau ategol

Er y bydd y cynigion yn y ddogfen yn gam pwysig, mae agweddau eraill y gellid ystyried eu newid ochr yn ochr â'r newidiadau a awgrymir.

O ran y profion Darllen a Rhifedd, er y bydd peidio â chyhoeddi data'r profion darllen a rhifedd yn dechrau newid y diwylliant, mae angen prysuro'r newid hwnnw drwy addasu'r negeseuon, y cyfathrebu a'r dulliau paratoi a gweinyddu. Mae ysgolion a rhieni wedi gorbwysleisio/camliwio pwysigrwydd y profion o'r cychwyn (yn sgil eu rôl mewn systemau atebolrwydd) nes bod awyrgylch o hysteria yn perthyn iddynt, a hyn yn effeithio mewn modd negyddol iawn ar ddysgwyr. Nid oes gwir angen i blant fod yn paratoi nac ymarfer ar eu cyfer, nid oes angen gwaith cartref penodol. Mae'r profion i fod i roi 'snapshot' o'r gwir sefyllfa er mwyn penderfynu ar anghenion cefnogaeth a champau pellach. Mi fyddai hyn yn newid sylfaenol a chadarnhaol iawn.

Yn ehangach, mae angen i bob haenen o'r system, a'r consortia rhanbarthol yn arbennig, ochel rhag gwneud defnydd amhriodol o ddata asesu. Unwaith eto, mae hyn yn gofyn am newid diwylliannol sylfaenol. Er budd y dysgwyr, asesiadau onest a chywir sydd eu hangen, nid asesiadau sy'n ceisio ticio bocsys perfformiad sefydliadol. Mae angen i'r negeseuon hyn dreiddio'n glir iawn drwy'r system gyfan.

Cymerwn y cyfle hwn i adrodd ei fod yn ymddangos, ar sail sylwadau gan aelodau, fod ymagwedd Estyn yn ei Fframwaith Arolygu newydd, eisoes wedi newid er gwell yn y cyddestun hwn. Roedd anfodlonrwydd mawr ynghylch dylanwad trwm y chwarteli – i'r graddau ble roedd ysgolion yn teimlo'u bod yn cyfyngu ar ganlyniad arolygiad cyn iddo ddigwydd. Mae hynny, a sawl agwedd arall, wedi dechrau gwella ers mis Medi 2017.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Rydym wedi cyhoeddi copi drafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gyda'r ymgynghoriad hwn a byddem yn croesawu eich barn arno.

Cwestiwn 4 – A ydych yn ymwybodol o unrhyw heriau neu effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i'r newid y credwch eu bod ar goll o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn eich maes diddordeb penodol chi?

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol nad yw colli'r data cymharol o'r system Gategoreiddio ac o wefan Fy Ysgol Leol yn fater o bryder. Yn yr un modd, nid oes gan UCAC gonsyrn am oblygiadau'r cynigion o ran Adroddiadau i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion, Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol, Prosbectysau ysgol, hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr, Cynlluniau Datblygu Ysgol na Thargedau Absenoldeb.

Fodd bynnag, ni allwn gyd-fynd â'r brawddegau canlynol: 'Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu asesiadau athrawon a phrofion o dan opsiwn 2. Felly bydd asesu effeithiolrwydd polisi cenedlaethol, mewn perthynas â gweithgareddau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cyflawniadau addysgol, yn dal i fod yn bosib o dan y cynnig.'

Mae'n bosib iawn y bydd Llywodraeth Cymru ei hun yn gallu parhau i asesu effeithiolrwydd ei pholisïau, ond ni fydd yr un mor hwylus i randdeiliaid allanol wneud hynny os na chyhoeddir y data. Fel y dywedwyd uchod, ein prif bryder fan hyn yw diogelu gallu mudiadau i fonitro cynnydd mewn perthynas ag addysg cyfrwng Gymraeg, a thargedau neu gerrig milltir yn y dogfennau 'Cymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21' a 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Rhaglen waith 2017-21'. Nid yw data cenedlaethol yn ddigon er mwyn cael dealltwriaeth o'r sefyllfa; mae data ar lefel awdurdod lleol, ac yn is na hynny yn angenrheidiol. Mae cwestiwn yn codi ynghylch Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a pha ddata y dylent fod yn ei ddefnyddio ac yn ei adrodd, ac ar ba ffurf. Efallai y byddai ein hawgrym o gyhoeddi Bwletin Ystadegol sy'n cwmpasu'r wybodaeth ar gyfer monitro cynnydd mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg yn gymorth yn hyn o beth.

Noda'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol y risg y gallai 'sefydliadau eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a chonsortia, geisio dyblygu'r data mewn ffordd arall', a chytunwn fod hynny'n risg y mae angen gochel rhagddi. Byddai angen i neges gwbl ddiawms fynd at bob awdurdod lleol a chonsortium rhanbarthol i bwysleisio agwedd Llywodraeth Cymru tuag at y defnydd o ddata, a dulliau cefnogi ysgolion.

Mae'r cyfryngau, yn naturiol, tu hwnt i gwmpas dylanwad y Llywodraeth, felly byddai angen sicrhau ei fod yn anodd iddynt gywain y data fyddai'n angenrheidiol er mwyn creu unrhyw fath o gynghreiriau o ysgolion. Rydym yn derbyn, os yw'r cyfryngau'n benderfynol o greu cymariaethau, y byddant yn gwneud hynny mewn rhyw fodd, ar ryw sail, ond nid oes rhaid ei gwneud yn rhwydd iddynt.

Mae UCAC yn cydnabod y bydd taro cydbwysedd rhwng datgysylltu asesu oddi wrth atebolrwydd ar y naill law, a lefel briodol o dryloywder a sgrwtini ar y llall, yn anodd. Ond nid ydym yn dawel ein meddwl bod y cydbwysedd yn hollol gywir yn y cynigion. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i ystyried bwletin ystadegol penodol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno gydag argymhellion y Prif Ystadegydd ar gyfer ystadegau swyddogol fel y'u nodwyd ym mharagraffau 35 i 39 y ddogfen hon?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae gennym bryderon am y rhesymau a nodwyd uchod ynghylch y cynigion hyn, er ein bod yn cytuno'n llwyr â'r bwriad o ran newid ffocws y defnydd o'r data asesiadau.,.

Mae paragraff 39 yn cyfeirio at y ffaith y bydd 'data ar lefelau daearyddol islaw lefel Cymru yn parhau i fod ar gael drwy wneud cais amdano', ond mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eisoes wedi sôn am y risgiau sydd ynghlwm â cheisiadau rhyddid gwybodaeth – o ran amser, costau, a defnydd amhriodol o'r data. Mae'r ddau i weld yn anghydnaws â'i gilydd yn hyn o beth, ac yn pwysleisio anhawster taro'r cydbwysedd rhwng tryloywder a defnydd priodol o'r data.

Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau a'r diwygiadau i'r rheoliadau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddant yn eu cael yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Nid ydym o'r farn y bydd gan y cynigion hyn unrhyw effaith benodol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg nac ychwaith ar driniaeth y Gymraeg o'i chymharu â'r Saesneg.

Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch sgil-ffeithiau'r cynigion ar y gallu i fesur cynnydd mewn perthynas â pholisïau Llywodraeth Cymru'n ymwneud â'r Gymraeg mewn addysg. Rydym wedi manylu ar hynny uchod, ac wedi awgrymu cyhoeddi Bwletin Ystadegol i fynd i'r afael â'r pryder.

Cwestiwn 7 – Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: